# Cyllidebu

## Canllaw i bobl ifanc

Adnodd 1 o 12

Mae'n bosib hoffet ti ddarllen yr adnoddau hyn hefyd:

- Arian - termau allweddol
- Arian - Rhoi rhywfaint o arian heibio
- Arian - Mae angen peth arna i!
- Cyflogaeth

Prosiect Paratoi

### Offer mae modd eu defnyddio

Mae yna offer rwyt ti'n gallu eu defnyddio i helpu gyda chyllidebu:

- Mae gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol gynllunydd cyllideb **https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/tools/budget-planner**
- Os wyt ti am greu dy gynllunydd dy hun, defnyddia Excel i greu taenlen sylfaenol. Mae gan Money Saving Expert dempled ar-lein. **https://www.moneysavingexpert.com/banking/Budget-planning/**
- Os wyt ti'n hyderus yn defnyddio technoleg, mae llawer o apiau'n cynnig offer cyllidebu/rheoli arian


# BETH YW CYLLIDEB?

Fe ddechreuwn ni gyda'r pethau sylfaenol. Beth mae cyllidebu yn ei feddwl?

## Cyllidebu

- Mae creu cyllideb yn golygu creu cynllun.
- Cynllun i gyfri faint o arian sy'n dod i mewn a faint sy'n mynd allan.
- Byddi di'n gwybod am rai pethau, ac mae'n bosib bydd rhaid i ti amcangyfrif (dyfalu) pethau eraill.
- Wedyn, bydd gen ti amcan faint o arian fydd ar ôl ar gyfer pethau eraill
- Mae angen i ti anelu i gael ychydig o arian dros ben. Bydd hynny'n talu am bethau annisgwyl fyddi di ddim yn gwybod amdanyn nhw ymlaen llaw




### CYMORTH!!

Os wyt ti'n teimlo'n ansicr am arian a sut mae cadw trefn arno, gallet ti edrych ar adnoddau fel:

- **Barclays Life Skills** – sy'n cynnig gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau ariannol i'th helpu gyda materion pob dydd. **https://barclayslifeskills.com/**
- **Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol** – sydd â chanllawiau syml a chynghorion ar amrywiaeth o bynciau

# O ble gallai'r arian yma ddod?

O ble gallai'r arian yma ddod? Gallai ddod o sawl lle, yn dibynnu ar dy amgylchiadau.

## Grant

Os wyt ti wedi gwneud cais llwyddiannus am grant bydd y sefydliad yn anfon llythyr atat ti i ddweud:

- faint yw'r grant
- pryd cei di'r arian
- a fydd 1 taliad neu fwy?

## Fy nghyflog

I gael gwybod faint yw dy gyflog, edrych ar slip cyflog neu dy gontract

Os ydy hon yn swydd newydd, defnyddia offeryn cyfrifo treth incwm i weld dy gyflog clir

- **https://www.moneysavingexpert.com/tax-calculator/**

## Cymelliadau/ Rhaglenni Hyfforddi

Efallai cei di daliadau cymhelliad am dderbyn hyfforddiant neu brofiad/leoliad gwaith

Gofyn yn y ganolfan waith neu i'th ddarparwr hyfforddiant a fydd lwfans hyfforddiant yn effeithio ar dy Gredyd Cynhwysol

## Benthyciad i Fyfyrwyr

For help applying speak to your personal advisor or learner support in College

Bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn anfon llythyr atat ti i ddweud:

- faint o arian byddan nhw'n ei roi/fenthyg i ti,
- pryd byddi di'n cael yr arian ac a fydd 1 taliad neu fwy

## Credyd Cynhwysol

Byddi'n gallu rheoli dy gyfrif ar-lein i weld faint o arian byddi di'n ei gael a phryd, ac ati.

Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau/y Ganolfan Waith yn anfon llythyr atat ti i ddweud faint byddi di'n ei gael bob mis

I wneud cais am Gredyd Cynhwysol, cer i: **https://www.gov.uk/credyd-cynhwysol**

## ISA i Bobl Ifanc/ Cynilion

Cei di godi arian o'r ISA i Bobl Ifanc pan fyddi di'n 18 oed

Efallai byddi di'n gallu defnyddio cynilion eraill sydd gen ti

Os wyt ti wedi bod mewn gofal am fwy na 12 mis, bydd gen ti ISA i Bobl Ifanc

Ble mae dy arian yn mynd? Mae'r dudalen yma'n edrych ar y meysydd allweddol. Fydd y rhain i gyd ddim yn berthnasol i ti o reidrwydd

# Ble mae fy arian i'n mynd?

## Hanfodion y Cartref

- Dŵr
- Rhent
- Nwy
- Trwydded deledu
- Yswiriant Cynnwys y Cartref
- Band Eang
- Ffôn Symudol
- Trydan

## Hamdden

- Penblwyddi
- Nadolig
- Sinema
- Gweithgaredd Chwaraeon
- Tanysgrifiad Xbox Live
- Diwrnod allan
- Campfa
- Tanysgrifiad Netflix
- Nofio
- Diddordebau
- Gêmau
- Pryd o fwyd allan
- Noson Allan

## Costau Byw

- Siopa am fwyd
- Dillad
- Esgidiau
- Pethau molchi
- Cinio (yn y gwaith)
- Tybaco
- Trin gwallt
- Dillad gwaith
- Cludfwyd

## Teithio

- Cost cerdyn rheilffordd
- Treth car
- Yswiriant car
- Ffioedd parcio
- Tocyn wythnos i'r bws/trên
- Petrol
- Benthyciad car

## Materion ariannol

- Ffioedd cyfrif banc
- Ad-dalu benthyciad
- Taliadau cerdyn credyd
- Ffioedd gorddrafft
- Cynilion

---

- Mae angen i ti osgoi costau diangen fel taliadau banc a thaliadau gorddrafft.
- Os wyt ti'n poeni amdanyn nhw, dylet ti sôn wrth dy gynghorydd personol a fydd yn gallu helpu

**Mae fy nghostau yn fwy na'r incwm sydd gen i!!**

Os dyma'r sefyllfa ar ôl i ti greu cyllideb ...

- Edrych drosti eto i wneud yn siŵr dy fod wedi cyfri popeth yn gywir
- Wyt ti’n gallu dileu unrhyw beth sydd ddim yn gwbl angenrheidiol? (darllen ein hadnoddau 'eisiau ac angen')
- Wyt ti'n gallu lleihau pethau ryw ychydig? Er enghraifft, fyddet ti'n gallu tynnu ychydig o bunnoedd o'th gyllideb ar gyfer bwyd, cludfwyd, noson allan?
- Oes rhywbeth gallet ti wneud i gynyddu'r arian sy'n dod i mewn? (Darllen ein hadnodd 'mae angen arian arna i')

# CYFRIFO FY NGHOSTAU

Erbyn hyn, rwyt ti'n gwybod am y mathau o gostau fydd gen ti. Sut mae gwybod faint bydd pob un yn ei gostio? Byddi di'n gwybod am rai, a bydd angen i ti amcangyfrif eraill.

- Pan fyddi di'n edrych ar greu cyllideb, cychwynna arni drwy nodi'r eitemau rwyt ti'n gwybod yn bendant faint yw eu cost.
- Yna, edrych ar y pethau rwyt ti'n eitha siŵr ohonyn nhw
- Yn olaf, edrych ar y pethau rwyt ti'n llai siŵr ohonyn nhw - rho amcangyfrif

## Costau rydw i'n gwybod amdanyn nhw


- **Rhent-** bydd hwn wedi ei nodi'n glir yn dy gytundeb tenantiaeth. Cadw olwg ar y dreth ystafell wely os oes gen ti ystafell wely sbâr (siarad â'th gynghorydd personol)
- **Trwydded deledu -** mae hon yn costio tua £12.87 y mis ar hyn o bryd
- **Ffôn Symudol -** os oes gen ti gontract, bydd y swm yr un fath bob mis (tra bod ti dan y terfyn data - rho gap ar ddata i wneud yn siŵr)
- **Band Eang** - bydd ffi fisol am hwn
- **Tanysgrifiadau Netflix/XBox Live** - bydd y rhain yn ffioedd misol penodol (mae modd canslo'r rhain ar unrhyw adeg)
- **Y cyfleustodau (Nwy/Trydan) -** os wyt ti'n trefnu i dalu trwy ddebyd uniongyrchol, bydd y swm yma yr un fath bob mis
- **Dŵr** - os wyt ti'n trefnu i dalu trwy ddebyd uniongyrchol, bydd y swm yma yr un fath bob mis
- **Ad-dalu Benthyciad** - os oes gen ti fenthyciad, bydd angen i ti dalu swm yn ôl bob wythnos neu bob mis.
- **Campfa -** os wyt ti'n aelod o gampfa, byddi di'n talu ffi fisol fwy na thebyg

## Costau rydw i'n gwybod amdanyn nhw, fwy na thebyg

- **Tocynnau trên/bws -** os wyt ti'n gwybod pa mor aml byddi di'n teithio bob wythnos, bydd modd gwybod faint byddi di'n talu. Efallai bydd cael tocyn wythnos/tocyn mis yn rhatach
- **Bwyd -** gosod derfyn ar faint dylai dy siopa gostio bob wythnos - a chadw ato (ond bydd yn realistig)!
- **Noson allan -** unwaith byddi di'n gwybod pa mor aml rwyt ti'n mynd allan, gosod derfyn gwariant.
- **Cinio (gwaith) -** mae gwneud dy ginio dy hun yn rhatach, ond os byddi di'n prynu cinio allan dylet ti allu gwybod faint fydd y gost.

## Costau rydw i angen amcangyfrif

- **Dillad -** mae'n bosib dy fod wedi gosod terfyn ar faint byddi di fel arfer yn ei wario ar ddillad, ond beth os bydd dy esgidiau wedi torri? Wyddost ti ddim pryd bydd hyn yn digwydd felly mae'n bosibl bydd angen i ti amcangyfrif swm.
- **Trin gwallt -** mae'n bosib na fydd hyn yn digwydd bob wythnos neu bob mis, ond os wyt ti'n gwybod faint rwyt ti'n ei wario bob tro, rhanna'r gost dros nifer o wythnosau cyn yr ymweliad er mwyn 'cynilo' ar gyfer hynny



Edrych ar y pethau am ddim/gostyngiadau/ grantiau a allai fod ar gael ac mae ein hadnoddau eraill i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn sôn amdanyn nhw. **Gofala dy fod yn manteisio’n llawn arnyn nhw!**
Pethau am ddim/ gostyngiadau mae ein hadnoddau eraill yn sôn amdanyn nhw
Budd-daliadau a hawl i fudd-daliadau
Eithriad Treth Cyngor ar gyfer pobl sy'n gadael gofal
Cynllun Disgownt Cartref Cynnes
Cronfa Dydd Gŵyl Dewi
Triniaeth Ddeintyddol Am Ddim
Taliad Tywydd Oer
HelpU Dŵr Cymru
Cronfa Cymorth Dewisol (DAF)
Prawf llygaid am ddim
Celfi i’r cartref
Grant Gadael Gofal
Pecyn cychwyn cartref
Lwfans addurno posibl
Cronfa Cymorth Dewisol (DAF)
Cyflogaeth
Cymorth posibl i dalu am Ofal Plant
Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) os bydd angen
Cymorth i gael cerdyn CSCS os bydd angen
Profiad gwaith/interniaethau posibl
Credyd Cynhwysol
Budd-daliadau a Phethau i’w Hawlio- Rhieni Ifanc
Budd-dal Plant
Prydau ysgol am ddim
Cymorth gyda Gofal Plant
Talebau Cychwyn Iach
Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn
Grant Gwisg Ysgol
Mynd o gwmpas
Cymorth i gyrraedd y Coleg
Dewis o gardiau rheilffordd
Talu treuliau er mwyn cyrraedd hyfforddiant ac ati
Teithio AM DDIM ar fysiau TRAWS Cymru ar y penwythnosau
Fy Ngherdyn Teithio (Bysiau)
Budd-daliadau a Phethau i’w Hawlio- Addysg
Support from Isle of Anglesey Council
Cymorth gan y Coleg Lleol
Cymorth Prifysgol
Bwrsariaeth Addysg Uwch
Grant Cymorth Arbennig
Grant Dysgu Llywodraeth Cymru
Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA)
Benthyciadau i Fyfyrwyr

# RHEOLI DY GOSTAU

**Gwefannau defnyddiol**

Bargeinion a chymharu prisiau:

- **https://www.moneysavingexpert.com/**
- **https://www.moneysupermarket.com/**

Cymharu prisiau bwyd

- **https://www.mysupermarket.co.uk/**

Derbyn arian yn ôl

- **https://www.quidco.com/**
- **https://www.topcashback.co.uk/**

Cyngor cyffredinol i bobl ifanc dan 25 oed

- **https://www.themix.org.uk/**

Erbyn hyn, rwyt ti'n gwybod pa arian sy'n dod i mewn a'r math o bethau rwyt ti'n gwario dy arian arnyn nhw, ond sut mae rheoli'r arian sy'n mynd allan?

## Cynghorion cyffredinol

- Trefna bod dy ddebydau uniongyrchol am bethau fel rhent, trydan/nwy ac ati yn mynd allan o'r cyfrif y diwrnod ar ôl i ti dderbyn dy gyflog/fudd-daliadau. Bydd hyn yn dileu'r temtasiwn i wario'r arian
- Fel arall, defnyddia offeryn 'amlen' fel yr un mae Undebau Credyd yn ei gynnig, sy'n rhoi arian heibio yn awtomatig mewn 'amlenni', yn barod ar gyfer talu biliau
- Os wyt ti'n cael Credyd Cynhwysol, gofyn a ydy'n bosib i'r arian sy'n gysylltiedig â'r tŷ gael ei dalu'n syth i'r landlord.
- Bydd yn graff - chwilia am y fargen orau. Mae llawer o siopau'n gwerthu'r un peth, gofala dy fod yn cael y fargen gorau cyn prynu.
- Os wyt ti'n bwyta allan, defnyddia wefan fel Money Saving Expert i chwilio am dalebau arian i ffwrdd ar gyfer cludfwyd/bwytai.
- Oes angen i ti brynu un newydd? Wyt ti'n gallu cael un ail law? Mae rhai llefydd yn gwerthu ffonau clyfar ail law, er enghraifft.
- Arian yn ôl - mae'n bosib y gallet ti gael arian yn ôl am eitemau rwyt ti'n eu prynu naill ai â cherdyn debyd neu trwy ap wrth siopa ar-lein.
- Apiau – bydd rhai apiau'n cynnig disgownt/talebau ac ati. Er enghraifft, mae'n aml yn bosib teithio'n rhatach os wyt ti'n lawrlwytho ap y cwmni bysiau

## Bwyd

Byddi di'n gweld rhagor o wybodaeth yn ein hadnodd siopa am fwyd, ond dyma ychydig o gynghorion:

- Brandiau - oes angen i ti brynu nwyddau wedi'u brandio? Mae rhai brandiau'n cael eu gwneud yn yr un ffatrïoedd â nwyddau label y siopau eu hunain
- Maint - wyt ti'n defnyddio llawer ohono? Fyddai prynu pecyn mwy yn cynnig gwell gwerth am arian?
- Lle – ai dyma'r archfarchnad sy'n wir yn cynnig y pris gorau? Wyt ti'n gallu cael nwyddau rhatach yn un o'r archfarchnadoedd sylfaenol neu siopau disgownt?
- Gwastraff - os wyt ti'n taflu bwyd, rwyt ti'n taflu arian i ffwrdd. Meddylia am y pethau rwyt ti'n eu prynu a sut maen nhw'n cael eu defnyddio. Defnyddia

  **https://www.supercook.com/#/recipes** i gael syniadau am ryseitiau.
- Swmp goginio - beth am brynu pacedi mwy, coginio mwy ar y tro a rhewi'r bwyd wedyn mewn cynwysyddion

## Lyfrgelloedd

Mae gan lyfrgelloedd nifer o gyfleusterau:

- Mynediad am ddim i'r rhyngrwyd
- Benthyg llyfrau am ddim (bydd rhaid talu swm bach os wyt ti'n dychwelyd llyfrau'n hwyr)
- Benthyg crynoddisgiau am ffi fechan
- Benthyg DVDs am ffi fechan
- Amrywiaeth o weithgareddau/sesiynau galw heibio trwy gydol y flwyddyn.

### Gwefannau defnyddiol

Bargeinion a chymharu prisiau:

- **https://www.moneysavingexpert.com/**
- **https://www.moneysupermarket.com/**

Cymharu prisiau bwyd

- **https://www.mysupermarket.co.uk/**

Derbyn arian yn ôl

- **https://www.quidco.com/**
- **https://www.topcashback.co.uk/**

Cyngor cyffredinol i bobl ifanc dan 25 oed

- **https://www.themix.org.uk/**

# RHEOLI DY GOSTAU

Erbyn hyn, rwyt ti'n gwybod pa arian sy'n dod i mewn a'r math o bethau rwyt ti'n gwario dy arian arnyn nhw, ond sut mae rheoli'r arian sy'n mynd allan?

## Cyfleustodau

- Ystyr cyfleustodau yw trydan, nwy a dŵr
- Gwiria wyt ti ar fesurydd dŵr neu drethi dŵr.
- I sicrhau bod dy filiau'n gywir a'th fod yn talu'r swm cywir, gofala roi darlleniadau mesurydd rheolaidd i'r cyflenwr pan fydd yn gofyn amdanyn nhw

## Cofia gymharu popeth

- Rydyn ni'n byw mewn byd llawn dewisiadau. Mae hynny'n golygu bod llawer o siopau'n gwerthu'r un peth.
- Gofala gymharu prisiau'r pethau rwyt ti'n eu prynu, mae'n hawdd gwneud hyn trwy Google.
- Os wyt ti'n methu cyrraedd llawer o siopau er mwyn cymharu, byddi di'n dal i fedru cymharu prisiau mewn un siop trwy gymharu brandiau a nwyddau heb eu brandio a chymharu cynnyrch o wahanol faint
- O ran trydan a nwy ac ati, defnyddia wefan gymharu i gael amcan o'r pris rhesymol

## Cynghorion arbed ynni

Os wyt ti'n arbed ynni, rwyt ti'n arbed arian! Mae modd cymryd camau i arbed ynni:

- Llanwa'r tegell â'r dŵr rwyt ti angen yn unig - po fwya o ddŵr, mwya o amser mae'n cymryd i ferwi a mwya mae hynny'n costio
- Paid â gadael dyfeisiau gyda'r golau coch ymlaen (ar 'standby')
- Paid â gadael gwefryddion â'r swits ymlaen
- Rho lwyth llawn o ddillad i'w golchi
- Golcha dy ddillad ar dymheredd is (30°C)
- Diffodd y goleuadau wrth adael y stafell
- Os oes gen ti wres canolog, cadw'r thermostat ar lefel resymol a'i droi i lawr neu ei ddiffodd wrth adael y tŷ
- Rho siwmper ymlaen cyn troi'r gwres i fyny
- Treulia lai o amser yn y gawod
- Defnyddia fylbiau golau rhad-ar-ynni (LED)
- Defnyddio offer atal drafftiau a deunydd selio (ar gyfer y bylchau o amgylch y ffenestri) i gadw dy gartre'n glyd

## Teithio

- Gofala dy fod ti'n cael Fy Ngherdyn Teithio a/neu gerdyn rheilffordd er mwyn teithio'n rhatach
- Os byddi di'n teithio'n aml, pryna docyn wythnos/mis
- Gallet ti gael tocynnau rhatach trwy lawrlwytho ap y cwmni bysiau.

## Lles

- Os wyt ti'n poeni am arian, gallai hynny effeithio ar dy iechyd meddwl
- Ceisia chwilio am ffyrdd o ofalu am dy iechyd meddwl a'th les
- I gael cyngor, gwybodaeth ac adnoddau am ddim, cer i
- **https://platfform.org/cy/project/pobl-ifanc/**
- **https://youngminds.org.uk/**

# DEWISIADAU



Dewisiadau!!! Beth wisga i heddiw? Pa ffilm wna i wylio? Rydyn ni'n gwneud cynifer o ddewisiadau bob dydd. Mae'r rhan hon o'r adnodd yn edrych ar y gwahaniaeth rhwng yr hyn sydd ei angen arnat ti a'r hyn rwyt ti eisiau.

## Beth wisga i heddiw?

Pethau gallet ti feddwl amdanyn nhw wrth benderfynu beth i'w wisgo

- Ble rwyt ti'n mynd?
- Ydy hi'n dwym neu'n oer tu allan?
- Oes angen i ti fod yn smart neu'n hamdde nol?
- Pa ddillad glân sydd gen i?
- Pwy wyt ti'n mynd i gwrdd â nhw?

## Dewisiadau ynghylch arian

- Mae'n rhaid i ni wneud dewisiadau ynghylch arian hefyd. Ydyn ni'n mynd i brynu'r peth yma neu'r peth arall?
- Mae gwneud y penderfyniadau yma'n gallu bod yn anodd weithiau oherwydd dydy'r pethau rydyn ni **eisiau** ddim wastad yn bethau rydyn ni **angen** eu prynu



**Cyllidebu**

- I'th helpu i ddeall faint o'r pethau rwyt ti eisiau cael rwyt ti'n gallu eu fforddio mewn gwirionedd, llunia gyllideb.
- Ystyr cyllideb yw cynllunio'r arian sy'n dod i mewn a pha arian sy'n mynd allan.
- I gael rhagor o wybodaeth am gyllidebu, siarad â'th gynghorydd personol

# EISIAU



Yma, rydyn ni'n ystyried beth yw eisiau rhywbeth ...

## Beth yw eisiau?

- Er cymaint mae **eisiau** llawer o bethau braf, newydd arnon ni i gyd, rwyt ti'n gallu byw heb rywbeth rwyt ti **eisiau**
- Fel rheol mae pethau rydyn ni eisiau'n gwneud i ni deimlo'n dda - ond dim ond am gyfnod byr, o bosib.



## Pethau rydyn ni eisiau

Gallai pethau nodweddiadol rydyn ni eisiau gynnwys:

- Trênyrs newydd
- Y math diweddaraf o ffôn symudol
- Y consol gêmau diweddaraf
- Dillad gan ddylunwyr
- Bwyta allan/cludfwyd



## Prynu'r hyn rydyn ni eisiau

- Os byddwn ni'n prynu'r hyn rydyn ni **eisiau** bydd hynny'n gwneud i ni deimlo'n dda am ychydig, fwy na thebyg
- Mae'n bwysig sicrhau dy fod yn cael pethau rwyt ti **eisiau** ambell waith
- Ond weithiau, rydyn ni'n rhuthro i brynu rhywbeth rydyn ni **eisiau** heb feddwl am yr union gost neu heb ystyried a fydd prynu'r eitem yn golygu bod dim arian gennyn ni i brynu'r pethau sydd **angen**

## Cymorth gyda dyledion

Os wyt ti ar ei hôl hi gyda rhai taliadau, paid â mynd i guddio.
Po gyflyma byddi di'n dweud dy fod ti'n cael trafferth, mwya tebygol fyddan nhw o gydymdeimlo.
I gael cymorth a chyngor:


- Siarad â'th Gynghorydd Personol
- Cer i weld Cyngor ar Bopeth
- Siarad â'th Swyddog Cymorth Tenantiaeth
- **https://www.turn2us.org.uk**
- **https://www.stepchange.org**

# ANGEN

......Ac yna mae'r pethau mae angen i ni brynu neu dalu amdanyn nhw.

## Beth yw angen?

- Dydy angen ddim mor gyffrous ag eisiau rhywbeth!
- Mae'r rhain yn bethau y gall fod eu **hangen** arnat ti i fyw
- Neu gallan nhw fod yn bethau mae **angen** i ti eu talu er mwyn sicrhau dy fod ti'n cael aros yn dy gartref
- Os wyt ti'n dewis peidio â phrynu neu dalu am rywbeth sydd ei **angen** arnat ti, bydd yna ganlyniadau.



## Enghreifftiau o bethau sydd eu hangen arnat ti ...

Pethau mae **angen** i ti eu prynu:

- Bwyd
- Dillad sylfaenol
- Celfi sylfaenol i'r tŷ

Pethau mae **angen** i ti dalu amdanyn nhw:

- Rhent
- Cyfleustodau (trydan, nwy)
- Trwydded deledu
- Biliau dŵr
- Contract ffôn symudol

## Beth fydd yn digwydd os na fydda i'n talu?

- Os nad wyt ti'n talu dy rent, mae perygl y cei di dy droi allan (gorfod gadael y tŷ)
- Os nad wyt ti'n talu dy filiau, byddi di mewn dyled, sy'n golygu y gall cwmnïau gymryd camau i'th orfodi i dalu
- Os nad wyt ti'n prynu bwyd, fyddi di ddim yn gallu byw

Os yw'r pwysau o ddal i fyny â'r biliau yn ormod ac yn effeithio ar dy iechyd meddwl, gofyn am gymorth.
Siarad â'r canlynol:

- dy gynghorydd personol
- dy weithiwr cymdeithasol
- Y Samariaid 116123
- Childline 0800 1111

### Cynilo ar gyfer pethau rwyt ti eisiau

- Y ffordd hawsaf o gynilo yw rhoi arian heibio bob wythnos neu bob mis ar y diwrnod y cei dy dalu. Fel yna, fydd dim temtasiwn i ti wario'r arian!
- Byddi'n teimlo boddhad mawr ar ôl cynilo digon o arian i brynu'r trênyrs newydd yna!
- Siopa heb deimlo'n euog!

I gael rhagor o wybodaeth am sut gallet ti gynilo arian i brynu'r pethau byddet ti wir yn hoffi eu cael, darllen ein hadnodd 'Arian - Rhoi rhywfaint o arian heibio'

# ANGEN NEU EISIAU

Rydyn ni wedi siarad am angen ac eisiau, ond sut mae cydbwyso'r ddau a sicrhau bod digon o arian dros ben gen ti?

## Bwyd

Nwyddau wedi'u brandio:

- Oes **angen** i ti brynu nwyddau wedi'u brandio neu wyt ti'n gallu prynu brand y siop ei hun?
- Oes **angen** i ti brynu nwyddau wedi'u brandio o'r siop honno neu oes modd eu prynu'n rhatach yn rhywle arall?
- Wyt ti'n bwyta/yfed llawer ohono? Gall swmp-brynu fod yn rhatach

## Trênyrs newydd

- Mae **eisiau** trênyrs newydd arnat ti, ond oes gwir **angen** i ti gael nhw nawr?
- Beth am gynilo ychydig o arian bob wythnos a'u prynu ymhen ychydig wythnosau?
- Byddi'n teimlo dy fod wedi cyflawni rhywbeth wrth eu prynu ymhen ychydig o wythnosau

## Dewis

Er bod angen rhai pethau arnat ti, mae gennyt ddewisiadau o hyd a allai arbed arian i ti:

## Ffôn Symudol

- Mae **angen** ffôn symudol arnat ti ond oes angen i ti gael y model diweddaraf neu ai rhywbeth rwyt ti eisiau yw hynny?
- Wyt ti wedi cymharu prisiau i wneud yn siŵr dy fod ti'n cael y fargen orau?
- Fyddi di ond yn gallu cael contract ar ôl cyrraedd 18 oed
- Paid â defnyddio mwy na dy lwfans o ddata, bydd rhagor o ddata yn ddrud iawn. Rho'r cap data ymlaen

## Trafnidiaeth

- Mae angen i ti fynd o A i B ond oes angen i ti ddefnyddio tacsi?
- Fyddet ti'n gallu mynd ar y bws? Neu gerdded?